# Ordinhad 22
# Penaethiaid y Cyfadrannau

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 06 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 2.1

**Dyddiad adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

**ORDINHAD 22**
**PENAETHIAID Y CYFADRANNAU**

1. Penodi penaethiaid y Cyfadrannau

   1. Bydd gan bob Cyfadran, sef yr Uned Academaidd a gydnabyddir gan y Cyngor yn ôl Ystatud 7 fel un sydd â'r cyfrifoldebau pennaf, bennaeth a benodir gan y Cyngor ar ôl proses recriwtio mewnol neu, gyda chytundeb yr Is-Ganghellor, broses recriwtio allanol.

   2. Yr un drefn a ddilynir i benodi pennaeth Cyfadran ac am y telerau cysylltiedig â'r swydd ag a ddefnyddir i benodi Dirprwy Is-Ganghellor.

   3. Ar ben dyletswyddau pennaeth Cyfadran, gall yr Is-Ganghellor, wrth benodi i swyddi penaethiaid Cyfadrannau, neilltuo iddynt arweinyddiaeth ar fenter, prosiect neu gyfrifoldeb strategol sy'n rhychwantu'r Brifysgol gyfan, ac a all newid o bryd i'w gilydd.

2. Dyletswyddau pennaeth Cyfadran

   Bod yn gyfrifol am arweinyddiaeth a datblygiad strategol y Gyfadran yn unol â strategaeth a pholisïau'r Brifysgol. Bydd y cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:

   1. Cyfrifoldeb o fewn y Gyfadran am ddatblygu strategol, cynllunio ariannol / busnes a dyrannu adnoddau, cyflawni cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir;

   2. Arloesi'n llwyddiannus wrth ddylunio a darparu rhaglenni, trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil gymwysedig, ac wrth ddarparu profiad i fyfyrwyr sy'n arwain y byd;

   3. Arwain ar feithrin cysylltiadau allanol â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu enw da, effaith ymchwil ac incwm;

   4. Cynyddu incwm o grantiau ymchwil i'r Gyfadran, a datblygu ymchwil o safon fyd-eang;

   5. Darparu amgylchedd academaidd cefnogol sy'n perfformio i lefel uchel, yn rhoi'r grym i staff allu darganfod cyfleoedd a manteisio arnynt;

   6. Rheoli staff - denu, cadw a datblygu staff er mwyn sicrhau rhagoriaeth;

   7. Monitro ansawdd y prosesau dysgu ac addysg a bod yn gyfrifol amdano o fewn y Gyfadran;

   8. Cefnogi gwaith datblygu ysgolheictod a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â thargedau'r Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol;